

Teitl y Rôl: **Uwch Swyddog**

CYFATHREBU

Cyfathrebu Llafar

Yn aml, derbyn, deall a throsglwyddo gwybodaeth uniongyrchol mewn dull clir a chywir.

Yn aml, derbyn, deall a throsglwyddo gwybodaeth sydd angen esboniad neu ddadansoddiad gofalus i helpu eraill i'w deall, gan roi ystyriaeth i'r hyn sydd i'w gyfathrebu a'r ffordd orau i drosglwyddo'r wybodaeth i eraill.

Yn aml, derbyn, deall a throsglwyddo syniadau cysyniadol cymhleth neu wybodaeth gymhleth a all fod yn hynod o fanwl, yn dechnegol neu'n arbenigol.

Cyfathrebu ysgrifenedig

Yn aml, derbyn, deall a throsglwyddo gwybodaeth uniongyrchol mewn dull clir a chywir.

Yn aml, derbyn, deall a throsglwyddo gwybodaeth sydd angen esboniad neu ddadansoddiad gofalus i helpu eraill i'w deall, gan roi ystyriaeth i'r hyn sydd i'w gyfathrebu a'r ffordd orau i drosglwyddo'r wybodaeth i eraill.

Yn achlysurol, derbyn, deall a throsglwyddo syniadau cysyniadol cymhleth neu wybodaeth gymhleth a all fod yn hynod o fanwl, yn dechnegol neu'n arbenigol.

GWAITH TÎM A CHYMHELLIANT

Gofynion goblygedig

Cyfranogi a chyflwyno cyfraniad i dîm.

Prif ffocws

Cefnogi ac annog eraill yn y tîm; helpu i adeiladu cydweithrediad drwy osod esiampl a dangos agwedd hyblyg at gyflawni canlyniadau tîm; a chyfrannu at adeiladu ysbryd y tîm fel aelod gweithgar o'r tîm.

Ffocws eilaidd

Egluro gofynion; cytuno ar amcanion tasg clir; trefnu a dirprwyo gwaith yn deg yn ôl galluedd unigol; helpu'r tîm i ganolbwyntio eu hymdrechion ar y dasg dan sylw a chymell aelodau unigol o'r tîm.

Yn achlysurol, ffurfio a chyfathrebu gweledigaeth glir o'r hyn y mae'r tîm cyfan yn ceisio'i gyflawni; annog unigolion i gyfrannu at y nod cyffredin hwn hyd eithaf eu gallu; creu ymdeimlad o undod a phwrpas cyffredin.

CYSWLLT A RHWYDWEITHIO

Cysylltu'n ddyddiol gan ddefnyddio gweithdrefnau sy'n bodoli er mwyn o dylanwadu ar ddigwyddiadau neu benderfyniadau; ymgymryd â chydweithio gweithredol er mwyn dilyn diddordeb a rennir.

Cymryd rhan mewn rhwydweithiau o fewn y sefydliad neu'n allanol er mwyn o dylanwadu ar ddigwyddiadau neu benderfyniadau; ymgymryd â chydweithio gweithredol er mwyn dilyn diddordeb a rennir.

Sefydlu, adeiladu neu arwain rhwydweithiau mewnol; cynnal cysylltiadau dros amser; sefydlu sianeli cyfathrebu i'ch hunan ac i eraill eu defnyddio er mwyn sicrhau y lledaenir gwybodaeth yn y fformat cywir i'r bobl gywir ar yr adeg gywir; adeiladu cysylltiadau er mwyn hwyluso rhannu gwybodaeth yn y dyfodol.

Sefydlu, adeiladu neu arwain rhwydweithiau y tu allan i'r sefydliad er mwyn sicrhau lledaeniad gwybodaeth yn y fformat cywir i'r bobl gywir ar yr adeg gywir; adeiladu perthnasau a chysylltiadau er mwyn hwyluso rhannu gwybodaeth yn y dyfodol.

DARPARU GWASANAETH

Gofynion goblygedig

Delio â chysylltiadau mewnol neu allanol sy'n gofyn am wasanaeth neu sy'n ceisio gwybodaeth; creu delwedd gadarnhaol o'r sefydliad drwy fod yn ymatebol ac yn gyflym wrth ymateb i geisiadau a chyfeirio'r defnyddiwr at y person cywir os oes angen.

Y cwsmer sydd fel arfer yn cychwyn y cyswllt, ac mae fel arfer yn cynnwys tasgau rheolaidd sydd â safonau neu weithdrefnau gosodedig.

Prif ffocws

Delio â chysylltiadau mewnol neu allanol lle mae'r gwasanaeth fel arfer yn cael ei gychwyn gan ddeiliad y swydd, gan weithio o fewn gweithdrefnau neu bolisiau cyffredinol y sefydliad; A / NEU ddeall ac archwilio anghenion y cwsmer; addasu'r gwasanaeth yn unol â hynny er mwyn sicrhau defnyddioldeb neu addasrwydd a safon y gwasanaeth.

Ffocws eilaidd

Yn achlysurol, gosod y safonau gwasanaeth cyffredinol ar draws swyddogaeth neu faes yn y sefydliad; monitro lefelau gwasanaeth; achub y blaen ar newidiadau yn anghenion y cwsmeriaid a rhagweld gofynion yn y dyfodol; cynnal ansawdd cyffredinol gan gydbwysu gofynion gwahanol; a sicrhau bod gan eraill y gefnogaeth sydd ei hangen i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a chyflawni eu rôl.

PROSEAU PENDERFYNU

Gwneud penderfyniadau annibynnol sy'n debygol o barhau am gryn dipyn ac sy'n dylanwadu'n bennaf ar/oddi mewn y tîm.

Bod â rhan mewn rhai penderfyniadau cydweithredol sy'n bellgyrhaeddol, cymhleth, a hirymaros a gweithio gydag eraill i gyrraedd y canlyniad gorau sydd â dylanwad sylweddol.

Rhoi cyngor neu fewnbwn i gyfrannu at benderfyniadau pobl eraill sy'n bellgyrhaeddol, cymhleth, a hirymaros, ac sydd â dylanwad sylweddol.

CYNLLUNIO A THREFNU ADNODDAU

Gofynion goblygedig

Cwblhau tasgau i gynllun gosodedig, gydag adnoddau sydd wedi'u clustnodi.

Cynllunio, blaenoriaethu a threfnu gwaith neu adnoddau ei hun i gyflawni amcanion a gytunwyd.

Prif ffocws

Cynllunio, blaenoriaethu a threfnu gwaith neu adnoddau ei hun ac eraill o fewn ei faes ei hun yn ddyddiol, yn wythnosol neu'n fisol; cynllunio a rheoli projectau bach, gan sicrhau y defnyddir adnoddau'n effeithiol; derbyn a rhoi gwybodaeth i eraill er mwyn iddynt gwblhau eu cynllunio hwy; a monitro cynnydd yn erbyn y cynllun.

Ffocws eilaidd

Yn achlysurol, cymryd cyfrifoldeb am gynllunio gweithredol a threfnu projectau mwy neu faes gwaith; cydlynu nifer o dimau neu brojectau'n fisol, yn chwarterol neu'n flynyddol; gosod safonau perfformiad a sefydlu gweithdrefnau monitro i gadw golwg ar y cynnydd ar draws y gwahanol agweddau hyn o'r gwaith; a rhoi mewnbwn i gynlluniau tymor hir yn achlysurol.

MENTER A DATRYS PROBLEMAU

Gofynion goblygedig

Datrys problemau syml dydd-i-ddydd wrth iddynt godi; dewis rhwng nifer o opsiynau sydd â chanlyniadau clir, drwy ddilyn canllawiau neu gyfeirio at yr hyn sydd wedi cael ei wneud yn flaenorol; a gwybod pryd y dylid cyfeirio problem at bobl eraill.

Prif ffocws

Defnyddio menter a chreadigrwydd i ddatrys problemau lle nad yw'r ateb gorau yn amlwg ar unwaith ond lle mae'n rhaid asesu drwy broses o resymu, gan bwysu a mesur y rhesymau dros ac yn erbyn gwahanol agweddau; adnabod ac asesu opsiynau ymarferol; a rhannu'r broblem yn gydrannau.

Ffocws eilaidd

Datrys problemau lle ceir swp o wybodaeth neu ddata amrywiol, rhannol ac anghyson, gydag amrediad o opsiynau posibl; defnyddio creadigrwydd wrth ddyfeisio gwahanol atebion, gan edrych ar y broblem o wahanol agweddau.

DADANSODDI AC YMCHWIL

Gofynion goblygedig

Sefydlu ffeithiau sylfaenol mewn sefyllfaoedd sy'n gofyn am ragor o ymchwil a hysbysu eraill os oes angen.

Prif ffocws

Dansoddi data neu wybodaeth arferol gan ddefnyddio gweithdrefnau sydd wedi'u gosod o flaen llaw a chasglu gwybodaeth o ffynonellau safonol; gweithio'n gywir er mwyn cwblhau'r dasg yn union fel y'i pennwyd.

Ffocws eilaidd

Adnabod dull priodol sy'n bodoli ar gyfer dadansoddi neu ymchwilio yn ôl y data a'r amcanion; adnabod a dehongli tueddiadau neu batrymau mewn data; a dynodi neu ddod o hyd i wybodaeth ychwanegol a all fod o gymorth i'r ymchwiliad wrth i'r dadansoddi fynd rhagddo.

GOFYNION SYNHWYRAIDD A CHORFFOROL

Ymgymryd â thasgau ar lefel a fyddai'n gofyn naill ai am ddysgu rhai dulliau penodol neu a fyddai'n cynnwys ymdrech corfforol cymedrol.

AMGYLCHEDD GWAITH

Prif ffocws

Gweithio mewn amgylchedd sy'n gymharol sefydlog ac nad yw'n effeithio llawer ar ddeiliad y swydd na'r ffordd y mae'r gwaith yn cael ei gwblhau.

Ffocws eilaidd

Deall sut y gallai'r amgylchedd gwaith gael effaith ar ei waith ei hun neu waith cydweithwyr; cymryd camau safonol, o fewn canllawiau iechyd a diogelwch lle bo'n gymwys, i addasu i'r amgylchedd yn achlysurol.

GOFAL A LLES BUGEILIOL

Yn aml, dangos sensitifrwydd i'r rheiny y gall fod angen help arnynt, neu mewn achosion eithafol, sy'n dangos arwyddion o drallod amlwg; a chymryd camau priodol drwy gysylltu â'r bobl berthnasol.

Yn achlysurol, rhoi cyngor ar faterion lles neu ymholiadau cyffredin; dilyn gweithdrefnau lles safonol ar gyfer y sefydliad; gwybod pryd y dylid cyfeirio unigolyn i rywle arall i gael cymorth proffesiynol; a pharchu cyfrinachedd.

DATBLYGU TÎM

(dylid cynnwys hyfforddi'r rhai hynny y tu allan i'r gwaith o dan Cefnogaeth Addysgu a Dysgu)

Yn aml, cyngori neu arwain dechreuwyr newydd sy'n gweithio yn yr un rôl neu uned ar wybodaeth neu weithdrefnau safonol.

Yn achlysurol, hyfforddi neu arwain pobl eraill ynglŷn â thasgau, materion neu weithgareddau penodol; rhoi cyngor, arweiniad ac adborth ar sail eich gwybodaeth neu'ch profiad chi; a chyflwyno hyfforddiant.

Yn achlysurol, ymgymryd â gweithgaredd hyfforddi neu ddatblygu yn ôl anghenion yr unigolyn neu'r grŵp; adnabod galluoedd cyfredol ac anghenion y dyfodol; diffinio'r safonau perfformiad gofynnol; adnabod gweithgaredd datblygu priodol; asesu cymhwysiad dysgu; a rhoi adborth ac arweiniad ar berfformiad cyffredinol.

CEFNOGAETH ADDYSGU A DYSGU

Cynllunio cynnwys neu ddeunydd dysgu o fewn fframweithiau sy'n bodoli; gwneud addasiadau priodol i ddeunydd sydd eisoes yn bodoli ar sail gwybodaeth neu brofiad y dysgwr/dysgwyr er mwyn cyflwyno myfyrwyr neu bobl eraill sy'n newydd i'r maes i wybodaeth neu weithdrefnau safonol.

Cynllunio cynnwys neu ddeunydd dysgu o fewn fframweithiau sy'n bodoli; gwneud addasiadau priodol i ddeunydd sydd eisoes yn bodoli ar sail gwybodaeth neu brofiad y dysgwr/dysgwyr er

mwyn addysgu neu hyfforddi myfyrwyr neu bobl eraill am dasgau, materion neu weithgareddau penodol; asesu perfformiad a rhoi adborth yn ystod y digwyddiad.

GWYBODAETH A PHROFIAD

Defnyddio ehangder neu ddyfnder gwybodaeth gan ddangos gwybodaeth a hyfedredd llawn yn ei faes arbenigedd ei hun; gweithredu fel pwynt cyfeirio i eraill; dangos datblygiad arbenigol parhaus, gan sicrhau a mireinio sgiliau ac arbenigedd mewn meysydd newydd neu berthnasol drwy ymgymryd â gweithgaredd datblygu mewnol neu allanol ac annog hynny.